Cyngor y Gweithlu Addysg

Education Workforce Council

Cyngor y Gweithlu Addysg

Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg 2022-23

Cymraeg

This document is also available in English

Cyflwyniad a chefndir

Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yw'r rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru.

Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, ac mae'n ofyniad cyfreithiol i ymarferwyr ar draws saith grŵp gwahanol yn y gweithlu addysg gofrestru gyda CGA. Mae'n yn cynnwys ymarferwyr o'r cyfnod sylfaen i addysg bellach, gwaith ieuenctid a dysgu seiliedig ar waith. Ein Cofrestr Ymarferwyr Addysg yng Nghymru (y Gofrestr) yw'r gofrestr gyhoeddus fwyaf o unrhyw broffesiwn yng Nghymru, a'r gofrestr fwyaf pellgyrhaeddol o weithwyr addysg proffesiynol yn y byd, gyda dros 88,000 o ymarferwyr wedi'u cofrestru.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut rydym wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2022-23, gan fanylu ar sut rydym wedi gweithio i hyrwyddo defnydd o'r iaith, ymhlith ein cyflogeion ac wrth ymgysylltu â chofrestreion a rhanddeiliaid allanol eraill.

Ein safonau, cydymffurfiaeth a monitro

Rydym wedi ein cynnwys yng nghategori pedwar Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni gydymffurfio â 148 o safonau sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau, materion gweithredol, llunio polisïau a chadw cofnodion.

Mae gan bob cyflogai gyfrifoldeb i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau sydd ar gael i gyflogeion a defnyddwyr gwasanaethau ar ein gwefan (gan gydymffurfio â safon weithredu 149). Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefan sy'n rhoi manylion ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Mae cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd misol yr uwch dîm rheoli. Y Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'r safonau. Caiff yr adroddiad blynyddol hwn, sy'n nodi ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, ei gymeradwyo gan ein Cyngor.

Ym mis Mawrth 2023, roedd ein trefniadau cydymffurfio rheoleiddiol (a oedd yn cynnwys ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg), yn destun archwiliad mewnol. Cawsom sicrwydd sylweddol heb unrhyw argymhellion.

Pe bai Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn am wybodaeth ynghylch sut rydym yn cydymffurfio â'r safonau, mae'n ddyletswydd arnom i'w darparu. Rydym wedi parhau i ymgysylltu'n adeiladol â Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd, ynglŷn â'n hymdrechion i hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg. Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi mynychu dau o ddigwyddiadau'r Comisiynydd, sef Defnyddio gwasanaethau Cymraeg – arferion effeithiol (Rhagfyr 2022) a Safonau Llunio Polisïau (Ionawr 2023).

Cydymffurfiaeth

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gohebiaeth ysgrifenedig (gan gynnwys gohebiaeth drwy e-bost)

Pan na fydd dewis iaith yr unigolyn rydym yn cysylltu ag ef yn hysbys, neu pan fyddwn yn ysgrifennu at grwpiau o bobl, er enghraifft cylchlythyron trwy e-bost, mae'r holl ohebiaeth gychwynnol yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg ar y chwith neu ar y brig fel ei bod yn ymddangos yn gyntaf. Pan fyddwn yn gwybod y dewis iaith, cyfathrebir yn yr iaith honno. Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn y Gymraeg a'r Saesneg, rydym yn ymateb yn ddwyieithog.

Mae ein pennawd ar ohebiaeth yn cynnwys datganiad yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn rhoi gwybod na fydd defnyddio'r Gymraeg yn arwain at oedi cyn ymateb.

Mae pob llofnod e-bost a/neu droedyn e-bost:

- yn nodi ein bod ni'n hapus i dderbyn gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a bod amserau ymateb yr un peth yn y ddwy iaith
- ar gyfer cyflogeion sy'n siaradwyr rhugl neu'n ddysgwyr, yn cynnwys logo Iaith Gwaith (sydd hefyd yn dangos cydymffurfiaeth â safon weithredu 128)
- yn cynnwys teitlau swydd a manylion cyswllt dwyieithog (sydd hefyd yn dangos cydymffurfiaeth â safon weithredu 129)

Mae pob ateb allan o'r swyddfa yn Gymraeg a Saesneg fel mater o drefn.

Galwadau ffôn

Mae ein prif rif ffôn yn cysylltu â system ffôn wedi'i hawtomeiddio sy'n cyfarch y galwr yn ddwyieithog (y neges Gymraeg yn gyntaf). Wedi hynny, mae'r system yn caniatáu i'r galwr ddewis siarad â chyflogai naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Rydym wedi dweud wrth gyflogeion sut i ymdrin â galwadau er mwyn sicrhau bod galwyr yn cael y gwasanaeth gorau yn eu dewis iaith. Ceir isod grynodeb o nifer y galwadau a gafwyd yn ystod 2022-23, yn Gymraeg a Saesneg:

	Nifer y galwadau a gafwyd yn Gymraeg	Nifer y galwadau a gafwyd yn Saesneg
Chwarter 1	558	5,267
Chwarter 2	497	3,902
Chwarter 3	368	3,541
Chwarter 4	373	4,311
Cyfanswm	**1,796**	**17,021**

Cyfarfodydd

Wrth drefnu cyfarfodydd, rydym yn cadarnhau dewis iaith y rhai a fydd yn bresennol ymlaen llaw ac yn cynnig cyfieithu ar y pryd, os oes angen.

Mae'r Cyngor yn cynnal ei gyfarfodydd yn Saesneg, gyda chytundeb yr aelodau. Fodd bynnag, rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd llawn ar gais, ac rydym yn darparu'r holl gofnodion yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Digwyddiadau

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynnal sawl digwyddiad bach a mawr i hyrwyddo ein gwaith ac i ymgysylltu â chofrestreion a rhanddeiliaid. Rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd llawn yn yr holl ddigwyddiadau cyhoeddus a drefnir gennym, sy'n caniatáu i'r cyflwynwyr ac aelodau'r gynulleidfa gymryd rhan yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae'r holl ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn adrodd wedi cael eu cynnal yn rhithwir, trwy Zoom. Rydym yn defnyddio platfform Zoom i gynnal ein digwyddiadau gan ei fod yn caniatáu ar gyfer darparu cyfieithu ar y pryd.

Yn yr holl ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd, roedd cyflwynydd y digwyddiad wedi annerch y gynulleidfa'n ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg, wrth ei agor a'i gau. Roedd y gynulleidfa hefyd yn gallu cyflwyno cwestiynau yn Gymraeg neu Saesneg trwy'r swyddogaeth sgwrsio. Yn ogystal, mewn un digwyddiad, roedd y gynulleidfa'n gallu gofyn cwestiynau ar lafar yn Gymraeg neu Saesneg (gofynnwyd un cwestiwn yn Gymraeg), ac roedd un digwyddiad yn cynnwys sawl cyflwyniad a roddwyd (yn rhannol neu'n gyfan gwbl), yn Gymraeg.

Mae'r holl gyflwyniadau PowerPoint a ddefnyddiwyd yn y digwyddiadau hyn wedi bod yn ddwyieithog.

Gwnaethom hefyd gynnal un digwyddiad lle y rhoddwyd cyflwyniadau yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd, ac roedd y mynychwyr yn gallu dewis pa gyflwyniad yr hoffent ei weld.

Rydym yn gosod isdeitlau ar yr holl recordiadau o ddigwyddiadau a lanlwythir i'n gwefan yn Gymraeg.

Mae ein holl ddigwyddiadau cyhoeddus yn rhad ac am ddim ac rydym yn gweinyddu ein tocynnau trwy'r platfform dwyieithog, tocyn.cymru. Mae'r wefan hon yn gwbl gefnogol o'r Gymraeg a'r Saesneg, ac yn caniatáu i ni gofnodi gwybodaeth ynghylch rhuglder y rhai sy'n bresennol yn y Gymraeg, neu os oes arnynt angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Buom yn bresennol yn Eisteddfod yr Urdd am wythnos ym mis Mai, gan rannu stondin gydag Addysgwyr Cymru. Gwnaethom sicrhau bod o leiaf un cyflogai sy'n siarad Cymraeg yn bresennol drwy gydol yr wythnos ac anogwyd cyflogeion sy'n dysgu Cymraeg i wirfoddoli hefyd.

Gwnaethom hefyd fynychu digwyddiadau gan gynnwys 'marchnadoedd' cynadledda, diwrnodau agored prifysgolion a ffeiriau recriwtio (yn rhithwir ac wyneb yn wyneb). Rydym yn sicrhau bod o leiaf un cyflogai sy'n mynd i'r digwyddiadau hyn yn siarad Cymraeg.

Cyflwyniadau

Fel y nodir yn gryno isod, rydym yn cynnig cyflwyniadau am nifer o'n meysydd gweithredol yn Gymraeg neu'n Saesneg, ar gais cyflogwyr/rhanddeiliaid. Rydym yn darparu'r holl gyflwyniadau yn yr iaith y gofynnwyd amdani.

Priodeoldeb i ymarfer

Mae'r tîm (ac uwch swyddogion) priodoldeb i ymarfer yn ymweld yn gyson ag ysgolion, colegau Addysg Bellach a lleoliadau eraill ledled Cymru i roi cyflwyniadau i gofrestreion presennol a rhai'r dyfodol, cyflogwyr/asiantau ac eraill am y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol (y Cod). Yn ystod 2022-23, rhoesom 58 o gyflwyniadau. Rhoesom gyflwyniadau mewn nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ond ni ofynnwyd am unrhyw gyflwyniadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cofrestru

Mae aelodau'r tîm cofrestru yn rhoi cyflwyniadau i fyfyrwyr addysgu (ysgol ac addysg bellach) a gwaith ieuenctid yn eu blwyddyn olaf mewn sefydliadau ledled Cymru. Yn ystod y cyfnod adrodd, rhoesom 27 o gyflwyniadau am gofrestru. Cafwyd cais i gynnal naw o'r rhain yn Gymraeg a gwnaethpwyd hynny. Darparwyd copïau o'r holl sleidiau yn Gymraeg a Saesneg ar ôl pob cyflwyniad. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn yr holl gyflwyniadau yn gallu gofyn cwestiynau (a chael ymateb) yn Gymraeg neu Saesneg.

Datblygiad proffesiynol a chyllid

Mae'r tîm datblygiad proffesiynol a chyllid yn cynnig cyflwyniadau i athrawon newydd gymhwyso a rhanddeiliaid perthnasol am y proffil sefydlu, ac i'r holl gofrestreion a rhanddeiliaid am y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP). Yn ystod y cyfnod adrodd, cawsom geisiadau am 26 o sesiynau cyflwyno yn Gymraeg, allan o gyfanswm o 87.

Hyrwyddo Gyrfaoedd

Mae'r tîm hyrwyddo gyrfaoedd wedi darparu nifer o arddangosiadau o wefan newydd Addysgwyr Cymru. Yn ystod y cyfnod adrodd, darparwyd saith arddangosiad yn Gymraeg ar gais, allan o gyfanswm o 144.

Arwyddion, hysbysiadau, cyhoeddusrwydd a deunyddiau hyrwyddo, dogfennau a ffurflenni

Rydym yn cynhyrchu holl ddeunyddiau CGA naill ai'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg ar y chwith neu ar y brig fel ei bod yn ymddangos yn gyntaf, neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae fersiynau uniaith Saesneg yn hysbysu'r darllenydd bod y deunydd ar gael yn Gymraeg (gan ddangos cydymffurfiaeth â safonau gweithredu 136, 137 a 138).

Y wefan a chyfryngau cymdeithasol

Mae ein gwefan a'r gwasanaethau gwe cysylltiedig yn gwbl ddwyieithog a gall defnyddwyr newid yn rhwydd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn wir am ein holl wasanaethau gwe, gan gynnwys y Gofrestr Ymarferwyr Addysg gyhoeddus, y gellir ei gwirio gan ddysgwyr, rhieni/gwarcheidwaid, aelodau o'r cyhoedd a chyflogwyr. O'r gwasanaethau gwe eraill rydym yn eu darparu i'n cofrestreion, mae'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) yn cael ei gefnogi gan ap dwyieithog. Hefyd, gallwn ddweud, o'r rhai a ddefnyddiodd y PDP yn ystod y cyfnod adrodd, fod 217 o athrawon newydd gymhwyso wedi creu'r fersiwn Gymraeg o'r proffil sefydlu a bod 1,353 wedi creu'r proffil yn Saesneg.

Yn ystod y cyfnod adrodd, crëwyd 4,734 o dempledi profiad dysgu proffesiynol Cymraeg yn y PDP, a chrëwyd 26,024 o ymatebion i'r templed profiad Saesneg. Cafodd y proffil dechrau gyrfa (sy'n cael ei greu gan fyfyrwyr Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yn y PDP ar ddiwedd eu cyfnod astudio ac a ddefnyddir i nodi eu cryfderau a'u meysydd i'w datblygu wrth ddechrau'r cyfnod sefydlu), 467 o ymatebion Cymraeg, a 1,573 o ymatebion Saesneg.

Rydym hefyd yn gyfrifol am Addysgwyr Cymru, sef gwefan seiliedig ar wasanaethau sy'n cynnig platfform ar-lein ar gyfer recriwtio a chadw gweithwyr addysg proffesiynol yng Nghymru. Mae'r wefan yn cydymffurfio'n llwyr â Safonau'r Gymraeg, gan ganiatáu i ddefnyddwyr ddefnyddio'r wefan/gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae hefyd yn darparu gwasanaeth gwe-sgwrs dwyieithog, sy'n cynnig ateb byw neu'r diwrnod wedyn gan swyddogion CGA. Daeth un ymholiad i law trwy'r gwasanaeth gwe-sgwrs yn Gymraeg a 113 yn Saesneg. Cawsom hefyd 114 o negeseuon e-bost uniongyrchol, yr oedd dwy ohonynt yn Gymraeg.

Mae ein prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar Twitter a YouTube. Rydym yn postio'r holl drydariadau a negeseuon yn Gymraeg a Saesneg ar un ffrwd. Ym mis Tachwedd 2022, i gyrraedd cynulleidfa ehangach, lansiom dudalen CGA ar Facebook, lle'r ydym yn postio yn Gymraeg a Saesneg.

Rydym yn ymateb i'r holl negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn iaith yr ymholiad gwreiddiol. Caiff fideos ar ein sianel YouTube eu postio yn Gymraeg a Saesneg, lle bynnag y bo modd. Rydym yn gosod isdeitlau yn Gymraeg a Saesneg pan fydd cyfwelai yn siarad mewn un iaith. Y Rheolwr Cyfathrebu sy'n gyfrifol am yr holl allbwn ar y cyfryngau cymdeithasol.

Derbynfa'r swyddfa

Yn ein tîm gwasanaethau corfforaethol, mae'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer tair o'r pedair swydd, sy'n sicrhau bod gennym staff dwyieithog ar y dderbynfa bob amser. Rhoddir laniard neu fathodyn pin Cymraeg ar Waith i'r holl gyflogeion sy'n siarad Cymraeg ac fe'u hanogir i'w wisgo (sydd hefyd yn dangos cydymffurfiaeth â safon weithredu 130 a 130A), ac mae posteri'n cael eu harddangos yn y dderbynfa er mwyn rhoi gwybod i ymwelwyr ein bod yn darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog. Mae'r llyfr ymwelwyr yn ddwyieithog, hefyd.

Gwybodaeth am gyflenwi gwasanaethau Cymraeg eraill

Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)

Ni sy'n gyfrifol am achredu a monitro rhaglenni AGA yng Nghymru. Rydym yn hysbysu'r holl ddarparwyr am bwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn y broses achredu a bod y trefniadau achredu'n gweithredu'n ddwyieithog. Ar bob ymweliad (rhithwir neu ar y safle) â Phartneriaethau, rydym yn croesawu cyflwyniadau a deialog proffesiynol trwy gyfrwng y Gymraeg, neu'n ddwyieithog. Rydym yn cynnig gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn yr holl ymweliadau (rhithwir neu ar y safle).

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023, defnyddiwyd gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gyfer un asesiad achredu (CaBan) a phum ymweliad monitro (APLP, Aberystwyth, y Brifysgol Agored, Abertawe a Chaerdydd). Yn ogystal, fe'i defnyddiwyd yn ein digwyddiad partneriaeth AGA, a gynhaliwyd yn rhithwir ym mis Mawrth 2023. Rhoddwyd pedwar cyflwyniad yn y digwyddiad yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn Gymraeg.

Ym mis Tachwedd 2022, ar y cyd â Llywodraeth Cymu, dyrannom niferoedd derbyn AGA ar gyfer rhaglenni'n dechrau ym mis Medi 2023 i bartneriaethau AGA. Gwnaethom hefyd roi targedau penodol i bartneriaethau ar gyfer recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg (30% o gyfanswm y nifer a gaiff ei recriwtio). Byddwn yn monitro'r recriwtio o gymharu â'r targedau hyn yn 2023-24 ac yn adrodd arno i Lywodraeth Cymru.

Rydym yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am achredu rhaglenni AGA i'n bwrdd achredu AGA (y bwrdd). Mae deuddeg aelod ar y bwrdd, gan gynnwys y cadeirydd a dau ddirprwy, sydd i gyd yn dod o feysydd addysg gwahanol. O'r deuddeg aelod, mae chwech yn rhugl yn y Gymraeg ac mae un yn ddysgwr lefel 5 ar hyn o bryd.

Hyrwyddo gyrfaoedd yn y gweithlu addysg i siaradwyr Cymraeg

Yn ystod 2022-23, parhawyd i weithio ar ymagwedd strategol newydd at hyrwyddo gyrfaoedd yn y proffesiynau cofrestredig. Mae ein hymagwedd yn gydnaws ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o ran datblygu sgiliau iaith yr holl ymarferwyr (a'u gallu i addysgu'r Gymraeg neu i gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg) ac yn ymateb i strategaeth Cymraeg 2050, sy'n nodi bod gan y sector addysg gyfraniad allweddol i'w wneud er mwyn gwireddu gweledigaeth miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Mae ein tîm eiriolaeth a chymorth wedi datblygu cynlluniau recriwtio ac ymgysylltu sy'n cynnwys recriwtio wedi'i dargedu ar gyfer athrawon cyfrwng Cymraeg. Mae gennym Swyddog Recriwtio a Chymorth penodol sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno digwyddiadau a gweithgarwch hyrwyddol yn benodol i gefnogi unigolion Cymraeg eu hiaith. Mae hyn wedi cynnwys:

- gweithio gyda phartneriaethau AGA i gyflwyno nosweithiau gwybodaeth i'r rhai sy'n ystyried dod yn athrawon cyfrwng Cymraeg
- cyflwyno gweithdai cyflogadwyedd a chyflwyniadau ar yrfaoedd ym maes addysg mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg
- mynychu ffeiriau gyrfaoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a cholegau
- cyflwyniadau i gynorthwywyr addysgu cyfrwng Cymraeg i'w hannog i symud ymlaen i yrfa ym maes addysgu

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn perthynas â nifer o gamau gweithredu o fewn Cynllun Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd Llywodraeth Cymru. Rydym wedi cyfarfod bob deufis gyda chydweithwyr o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru i fonitro cynnydd, osgoi dyblygu ymdrechion ac amlygu cyfleoedd ar gyfer cydweithio.

Priodoldeb i ymarfer ac apeliadau sefydlu

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gennym 52 o aelodau panel ar gael i eistedd ar bwyllgorau priodoldeb i ymarfer, yr oedd 12 ohonynt yn siaradwyr Cymraeg.

Rydym yn clywed achosion priodoldeb i ymarfer ac apeliadau sefydlu yn newis iaith y cofrestrai. O dan ein gweithdrefnau, rydym yn cysylltu â'r holl gofrestreion ag achos sy'n dod atom, i ofyn ym mha iaith yr hoffent i'w hachos gael ei gynnal. Yn yr un modd, os bydd achos yn mynd ymlaen i wrandawiad, rydym yn gofyn eto i'r cofrestrai ym mha iaith yr hoffai i'r gwrandawiad gael ei gynnal. Hefyd, mae tystion yn rhydd i roi tystiolaeth yn Gymraeg, ni waeth ym mha iaith y cynhelir y gwrandawiad.

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023:

- clywsom ddau wrandawiad yn gyfan gwbl yn Gymraeg (gohiriwyd y ddau i'w cwblhau yn 2023-24) ac un gwrandawiad yn rhannol yn Gymraeg.
- ni chlywsom unrhyw apeliadau sefydlu.

Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (y Marc Ansawdd)

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gennym 54 o aseswyr ar gyfer y Marc Ansawdd. O'r rhain, mae naw yn siaradwyr Cymraeg (ar wahanol lefelau).

Caiff sefydliadau sy'n gwneud cais am y Marc Ansawdd gyflwyno dogfennau yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Rydym yn cynnal asesiadau Marc Ansawdd yn newis iaith yr ymgeisydd. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023, cynhaliom ddau asesiad Marc Ansawdd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn Gymraeg.

Safonau llunio polisïau

Polisïau a gweithdrefnau

Rydym wedi integreiddio cwestiynau ar yr iaith Gymraeg i'n proses asesu effaith wrth ddatblygu neu ddiwygio polisïau. Mae gennym bolisi ar waith ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle (safon 92).

Ymgynghoriadau, ymchwil ac ystadegau

Cyhoeddom ddwy ddogfen ymgynghori yn ystod y flwyddyn adrodd. Roedd y rhain yn ymwneud â'n Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol diwygiedig a'n Cynllun Strategol 2023-2026. Cynhaliom y ddau ymgynghoriad yn ddwyieithog ac roeddent yn ystyried a cheisio barn am yr iaith Gymraeg yn unol â safonau 86-88.

Ym mis Mawrth 2023, lansiom yr Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith ar gyfer Cymru. Anfonwyd gohebiaeth ddwyieithog at yr holl gofrestreion Addysg Bellach a dysgu seiliedig ar waith yn eu gwahodd i gwblhau'r arolwg ar-lein, a oedd ar gael, ac y gallent ei gwblhau, yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi a'u cyhoeddi yn 2023-24.

Ym mis Medi 2022, cyhoeddom ein Hystadegau Blynyddol ar gyfer y Gweithlu Addysg yng Nghymru 2022. Rhoddodd yr adroddiad hwn fanylion am y Gymraeg ar gyfer y gweithlu addysg cyfan yng Nghymru, ledled ysgolion, addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a lleoliadau gwaith ieuenctid. Rydym hefyd wedi cyhoeddi datganiadau data ar y gweithlu cyflenwi (athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion), arweinwyr ysgolion ac athrawon newydd gymhwyso, sydd oll wedi cynnwys gwybodaeth am y Gymraeg.

Yn ystod yr haf 2022, fe'n comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i archwilio datblygu llwybr prentisiaeth neu gymwysterau galwedigaethol ar gyfer dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 fel llwybr tuag at addysgu, gyda phwyslais penodol ar gyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn ymateb i Gynllun y Gymraeg mewn Addysg 10 mlynedd Llywodraeth Cymru (cam gweithredu 1 o dan amcan 1.3). Byddwn yn cyflwyno ein hargymhellion i Lywodraeth Cymru yn 2023-24.

Safonau gweithredu

Hyrwyddo'r iaith Gymraeg

Mae gennym bolisi ar waith ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y gweithle. Diben y polisi hwn yw annog a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn fewnol, gan bwysleisio bod ei defnyddio'n rhan o ddiwylliant ein swyddfa. Mae ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg yn rhan o'r rhaglen sefydlu ar gyfer cyflogeion newydd.

Anfonwyd ein e-gylchlythyr Cymraeg ar Waith at yr holl staff bob tri mis yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi dylunio'r cylchlythyr i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ledled ein sefydliad, a helpu i sicrhau ein bod yn gweithredu Safonau'r Gymraeg yn gyson.

Rydym wedi meithrin amgylchedd anogol i ddysgwyr Cymraeg yn y sefydliad. Rydym yn annog cyflogeion i siarad neu ddysgu Cymraeg ac mae siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn gefnogol iawn o'u cydweithwyr sy'n ddysgwyr. Er enghraifft, drwy gydol y flwyddyn, cynigiodd y Swyddog Cyfathrebu dwyieithog gyfleoedd i gydweithwyr atgyfnerthu eu dysgu trwy sesiynau anffurfiol.

Mae gennym ganllaw arddull Gymraeg penodol i CGA, sef yr Arddulliadur, sy'n rhoi arweiniad ar gyfathrebu yn Gymraeg.

Rydym wedi gosod pecyn meddalwedd Cysgliad, sy'n cynnwys geiriadur a gwirydd sillafu ar-lein, ar gyfrifiaduron cyflogeion Cymraeg eu hiaith. Rydym wedi gosod rhaglen arall, sef 'To Bach', ar yr holl gyfrifiaduron i'n cynorthwyo i ddefnyddio'r acen grom sy'n ymddangos yn aml yn yr iaith, gan gynnwys mewn enwau pobl ac enwau lleoedd, e.e. Siân, Dŵr Cymru, Penarlâg.

Gwnaethom hefyd gymryd rhan yn Niwrnod Hawliau'r Gymraeg 2022, a ddathlodd y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan sefydliadau a'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymdrin â nhw. Yn ystod y diwrnod, cyhoeddom fideo ar Twitter, yn rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau Cymraeg.

Polisïau a gweithdrefnau

Rydym yn cyhoeddi holl bolisïau CGA, gan gynnwys y rhai a restrir yn safonau'r Gymraeg, yn Gymraeg a Saesneg yn llyfrgell y staff. Mae unrhyw ffurflenni neu ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r polisïau ar gael i gyflogeion yn Gymraeg a Saesneg neu'n ddwyieithog.

Mae ein polisïau disgyblu a chwynion cyflogaeth yn nodi hawliau cyflogeion, yn unol â'r safonau, i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn ystod unrhyw weithdrefn.

Cwynion

Os daw unrhyw gwynion i law, mae gennym brosesau ar waith i sicrhau ein bod yn eu nodi'n fanwl a'u cadw'n electronig. Mae ein dogfen safonau gwasanaeth ar gael ar ein gwefan a darperir copïau caled ar gais. Nid ydym wedi cael unrhyw geisiadau am gopïau o'n safonau gwasanaeth.

Yn ystod 2022-23, ni chawsom unrhyw gwynion am yr iaith Gymraeg na'n cydymffurfiaeth â'r safonau.

Hyfforddiant o ran y Gymraeg

Y broses adolygiadau datblygu perfformiad (PDR), ynghyd â'r arolwg staff y cyfeiriwyd ato ar dudalen 12, yw'r prif fodd o nodi hyfforddiant a datblygiad o ran y Gymraeg ar gyfer cyflogeion. Rydym yn llwyr gefnogi hyfforddiant perthnasol yn Gymraeg i bob cyflogai.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, dilynodd un aelod o staff hyfforddiant ffurfiol yn Gymraeg.

Ni ddarparwyd unrhyw hyfforddiant yn y meysydd a amlinellir yn safonau gweithredu 122 a 123 yn ystod y flwyddyn adrodd. Os darperir hyfforddiant yn y meysydd hyn, fe'i darperir yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

CGA – Sgiliau Cymraeg

Cyflogeion

Rydym yn cynnal arolwg o sgiliau a galluoedd Cymraeg ein cyflogeion bob blwyddyn. Hefyd, gofynnwn i bawb sy'n dechrau gweithio i CGA lenwi holiadur yn ystod y broses sefydlu. Mae'r holiadur yn gofyn i gyflogeion roi gwybodaeth am eu sgiliau Cymraeg mewn perthynas â gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu, gan ofyn iddynt asesu eu galluoedd gan ddefnyddio'r Fframwaith Sgiliau'r Gymraeg (fel yr awgrymir yn nogfen gyngor Comisiynydd y Gymraeg). Rydym wedi crynhoi'r ymateb gan yr holl gyflogeion yn y tabl isod ac wedi atodi dadansoddiad manwl o'r ymatebion (yn ôl adran) yn Atodiad 1.

Arolwg Cymraeg cyflogeion CGA – crynodeb o'r canlyniadau[1]

	Sgôr gymhwysedd						
	0	1	2	3	4	5	Cyfanswm
Gwrando	13	15	1	1	-	21	**51**
Darllen	14	15	-	1	2	19	**51**
Siarad	15	14	-	1	4	17	**51**
Ysgrifennu	20	8	2	3	5	13	**51**

Roedd yr arolwg Cymraeg hefyd yn gofyn i gyflogeion am eu gofynion hyfforddi o ran y Gymraeg. Gofynnodd cyfanswm o 21 o gyflogeion am hyfforddiant Cymraeg. Roedd gan 15 ddiddordeb mewn hyfforddiant cyflwyniadol/dechreuol, gofynnodd dri am hyfforddiant ymestynnol ac roedd tri eisiau cael hyfforddiant adolygu/sgiliau arbennig (ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl).

1 Sylwer bod nifer yr ymatebion gan gyflogeion i'r arolwg (51) chwech yn brin o gyfanswm nifer y cyflogeion a oedd yn gweithio i CGA ar 31 Mawrth 2023. Mae hyn oherwydd bod pedwar unigolyn ar absenoldeb mamolaeth ac ni ymatebodd ddau aelod o staff i'r arolwg.

Aelodau'r Cyngor

Fel rhan o'n gwaith casglu data, gofynnir i holl aelodau'r Cyngor nodi eu galluoedd Cymraeg. Oherwydd daeth tymor y Cyngor i ben ar 31 Mawrth 2023, ni ddiweddarwyd y data ar ddiwedd mis Mawrth 2023, ond mae data o 2022 i'w weld isod.

A allwch chi ddeall/siarad /ysgrifennu Cymraeg?	Deall Cymraeg llafar	Siarad Cymraeg	Darllen Cymraeg	Ysgrifennu Cymraeg	Dim	Arall	Gwell gennyf beidio â dweud
(Ticiwch bob un sy'n berthnasol)	2	1	2	1	7	1	0

Bydd data ar gyfer y Cyngor newydd, sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023, yn cael ei gasglu ym mis Mawrth 2024.

Aelodau'r bwrdd achredu AGA

Mae deuddeg o aelodau ar y bwrdd achredu AGA. O'r rhain, mae chwech yn siarad Cymraeg. Mae un yn ddysgwr – lefel 5.

Aelodau'r panel priodoldeb i ymarfer

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022-23, roedd gennym 52 o aelodau o'r panel ar gael i eistedd. Mae 12 o'r rheiny'n siaradwyr Cymraeg.

Aseswyr y Marc Ansawdd

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022-23, roedd gennym 54 o aseswyr y Marc Ansawdd. Mae naw o'r rheiny'n siaradwyr Cymraeg.

Recriwtio

Cyn dechrau ar broses recriwtio, bydd rheolwr llinell a'r Cyfarwyddwr perthnasol, gan ddefnyddio ein ffurflen gofyniad recriwtio, yn gwerthuso'r angen am y swydd bosibl, a'i natur, gan gynnwys yr angen am sgiliau Cymraeg. Ar ôl hynny, caiff y broses recriwtio gyfan ei chwblhau yn Gymraeg a Saesneg neu'n ddwyieithog, gan gynnwys yr hysbyseb swydd (sy'n nodi'r categori sgiliau Cymraeg), yr holl wybodaeth ategol, y ffurflen gais a'r ohebiaeth gydag ymgeiswyr.

Wrth hysbysebu swyddi y mae'r Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer, defnyddir gwefannau recriwtio Cymraeg. Ar y cam cyfweld, mae o leiaf un aelod o'r panel dethol yn siarad Cymraeg yn rhugl ac yn gofyn o leiaf un cwestiwn i'r ymgeisydd yn Gymraeg, y bydd angen iddo ei ateb yn Gymraeg.

Mae ein ffurflen gais yn cynnwys lle i'r ymgeisydd nodi a yw eisiau defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad neu unrhyw ddull asesu arall. Mae hefyd yn esbonio y caiff gwasanaeth cyfieithu ei ddarparu, os bydd angen.

Pan gaiff swydd newydd ei chynnig, gofynnir i'r unigolyn a yw eisiau cael unrhyw ohebiaeth ffurfiol, gan gynnwys y contract cyflogaeth, yn Gymraeg.
Yn ystod y flwyddyn adrodd, hysbysebwyd dwy ar bymtheg o swyddi newydd a gwag (fel y manylir isod):

	Swyddog Gweinyddol	Swyddog Gweithredol	HEO	SEO	Gradd 7	Cyfarwyddwr	Cyfanswm
Hanfodol	0	7	2	0	0	0	9
Dymunol	1	4	1	1	0	1	8
Arall	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	**1**	**11**	**3**	**1**	**0**	**1**	**17**

Safonau cadw cofnodion

Rydym yn cadw'r holl gofnodion yn unol â'r safonau a byddwn yn eu rhoi i Gomisiynydd y Gymraeg ar gais.

Atodiad 1: Arolwg Cymraeg cyflogeion: crynodeb o'r canlyniadau yn ôl adran[2]

Gwrando

	Sgôr gymhwysedd						
	0	1	2	3	4	5	Cyfanswm
Uwch reolwyr	2	1	-	-	-	1	**4**
Data	-	-	-	-	-	4	**4**
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	2	4	-	-	-	3	**9**
Priodoldeb i ymarfer	4	4	-	-	-	-	**8**
Polisi, cynllunio a chyfathrebu	-	2	1	-	-	2	**5**
Datblygiad proffesiynol a chyllid	2	-	-	1	-	3	**6**
Cofrestru	1	3	-	-	-	4	**8**
Achredu AGA	1	-	-	-	-	1	**2**
Hyrwyddo gyrfaoedd	1	-	-	-	-	3	**4**
Marc Ansawdd	-	1	-	-	-	-	**1**
Cyfanswm	**13**	**15**	**1**	**1**	**-**	**21**	**51**

2 Sylwer bod nifer yr ymatebion gan gyflogeion i'r arolwg (51) chwech yn brin o gyfanswm nifer y cyflogeion a oedd yn gweithio i CGA ar 31 Mawrth 2023. Mae hyn oherwydd bod pedwar unigolyn ar absenoldeb mamolaeth ac ni ymatebodd ddau aelod o staff i'r arolwg.

Darllen

	Sgôr gymhwysedd						
	0	**1**	**2**	**3**	**4**	**5**	**Cyfanswm**
Uwch reolwyr	1	2	-	-	-	1	**4**
Data	-	-	-	-	-	4	**4**
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	2	4	-	-	-	3	**9**
Priodoldeb i ymarfer	5	3	-	-	-	-	**8**
Polisi, cynllunio a chyfathrebu	-	3	-	-	1	1	**5**
Datblygiad proffesiynol a chyllid	2	-	-	1	-	3	**6**
Cofrestru	2	2	-	-	-	4	**8**
Achredu AGA	1	-	-	-	-	1	**2**
Hyrwyddo gyrfaoedd	1	-	-	-	1	2	**4**
Marc Ansawdd	-	1	-	-	-	-	**1**
Cyfanswm	**14**	**15**	**-**	**1**	**2**	**19**	**51**

Siarad

	Sgôr gymhwysedd						
	0	**1**	**2**	**3**	**4**	**5**	**Cyfanswm**
Uwch reolwyr	2	1	-	-	-	1	**4**
Data	-	-	-	-	-	4	**4**
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	3	3	-	-	3	-	**9**
Priodoldeb i ymarfer	5	3	-	-	-	-	**8**
Polisi, cynllunio a chyfathrebu	1	2	-	-	-	2	**5**
Datblygiad proffesiynol a chyllid	2	-	-	1	-	3	**6**
Cofrestru	1	3	-	-	-	4	**8**
Achredu AGA	-	1	-	-	-	1	**2**
Hyrwyddo gyrfaoedd	1	-	-	-	1	2	**4**
Marc Ansawdd	-	1	-	-	-	-	**1**
Cyfanswm	**15**	**14**	**-**	**1**	**4**	**17**	**51**

Ysgrifennu

	Sgôr gymhwysedd						
	0	**1**	**2**	**3**	**4**	**5**	**Cyfanswm**
Uwch reolwyr	2	1	-	-	1	-	**4**
Data	-	-	-	-	1	3	**4**
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	3	2	1	2	1	-	**9**
Priodoldeb i ymarfer	7	1	-	-	-	-	**8**
Polisi, cynllunio a chyfathrebu	-	3	-	-	1	1	**5**
Datblygiad proffesiynol a chyllid	2	-	1	-	-	3	**6**
Cofrestru	3	1	-	1	-	3	**8**
Achredu AGA	1	-	-	-	-	1	**2**
Hyrwyddo gyrfaoedd	1	-	-	-	1	2	**4**
Marc Ansawdd	1	-	-	-	-	-	**1**
Cyfanswm	**20**	**8**	**2**	**3**	**5**	**13**	**51**

Cedwir pob hawl © Cyngor y Gweithlu Addysg 2023